| | |
|---|---|
| **Cyfarfod** | **Y Cyngor Llawn** |
| **Dyddiad** | **3 Gorffennaf 2025** |
| **Pwnc** | **Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau 2024/25** |
| **Awdur** | **Mr Hywel Eifion Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau** |
| **Swyddog Perthnasol** | **Siôn Huws, Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau** |

**Cefndir**

**1.** Mae'r Pwyllgor Safonau yn bwyllgor statudol, sydd wedi ei sefydlu i hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan gynghorwyr ac aelodau cyfetholedig Cyngor Gwynedd, a chynghorau cymuned a thref Gwynedd.

**2.** Ers sawl blwyddyn bellach mae'r Pwyllgor wedi bod yn cyhoeddi adroddiad blynyddol i egluro'r hyn y mae'n ei wneud ac i hyrwyddo ei waith, ac yn ei gyflwyno'n ffurfiol i gyfarfod o'r Cyngor Llawn. Erbyn hyn mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 wedi cyflwyno dyletswydd statudol ar y pwyllgor i gyhoeddi adroddiad blynyddol ac ar yr awdurdod i'w ystyried.

**3.** Mae'r Pwyllgor felly yn cyflwyno'r adroddiad hwn i sylw'r Cyngor. Bydd yr adroddiad hefyd yn cael ei osod ar dudalen y pwyllgor ar wefan y Cyngor ac yn cael ei gylchredeg i gynghorau cymuned a thref Gwynedd.

**4**. Mae'n briodol tynnu sylw'r Cyngor at y ffaith bod trefn newydd ar gyfer cofrestru buddiannau personol mewn cyfarfodydd yn weithredol o'r cyfarfod hwn ymlaen. Ar ôl datgan buddiant bydd aelod yn derbyn e-bost yn ystod y cyfarfod gyda dolen i ffurflen y gellid ei chwblhau a'i chyflwyno ar-lein.

**Argymhelliad**

**5.** Derbyn yr adroddiad

**Sylwadau Swyddogion Statudol**

**Swyddog Monitro**

Swyddog Cyfrifol

**Prif Swyddog Cyllid**

Dim i'w ychwanegu i'r adroddiad o safbwynt priodoldeb ariannol.